Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Maesglas**

**Cartref Preswyl Manor Park**
**Green Street, Holt**
**Wrecsam**
**LL13 9JF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Maesglas

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Accurocare Wrexham Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf o dan ddarparwr newydd y gwasanaeth |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Dyma'r arolygiad cyntaf ar gyfer y cartref hwn ers i ddarparwr newydd y gwasanaeth gymryd drosodd.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref cynnes sydd mewn cyflwr da, sy'n diwallu eu hanghenion. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gofal da gan y staff a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn y cartref. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff asesiadau risg a chynlluniau personol unigol priodol eu llunio er mwyn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu mewn modd amserol er mwyn eu cadw'n gyfredol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn dilyn cynlluniau personol y bobl wrth ddarparu gofal a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu da ar waith, gan gynnwys polisïau a phrosesau, ac mae'r staff yn eu dilyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn goruchwylio rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Mae'r rheolwr yn monitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd fel rhan o'i broses sicrhau ansawdd. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn gwaith parhaus i adnewyddu'r gwasanaeth a gwelsom fod yr ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol eisoes wedi cael eu hailaddurno

## Llesiant

Gall y bobl ddewis sut maent am dreulio eu hamser o ddydd i ddydd. Gwelsom fod amrywiaeth o ddewisiadau bwyd ar gael iddynt ar y fwydlen bob dydd, ac y gallant gael ail neu drydydd platiaid o fwyd os byddant yn dymuno hynny. Mae diodydd a byrbrydau ar gael ar unrhyw adeg. Gall y bobl ddewis ble y maent am dreulio eu hamser drwy gydol y dydd a gallant bersonoli eu hystafelloedd. Mae darparwr y gwasanaeth yn casglu adborth gan y bobl yn rheolaidd am eu profiadau o fyw yn y cartref. Gwelsom y staff gofal yn ymgysylltu â'r bobl ag urddas a pharch. Maent yn cynnig cyswllt corfforol ysgafn ac anogaeth i'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn “*excellent*”, ac y bydd y staff yn paratoi bryd o fwyd amgen o'u dewis os na fydd rhywbeth at eu dant ar y fwydlen.

Anogir y bobl i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus ac yn eu cadw'n iach. Gall y bobl gael gafael ar gyngor gofal iechyd mewn modd amserol. Anogir y bobl i gymryd rhan mewn adloniant a gweithgareddau dyddiol. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da â'r bobl sy'n byw yn y cartref; gwelsom nhw'n canu gyda'r bobl ac yn sgwrsio, yn gwenu ac yn chwerthin gyda nhw. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth a'u sgiliau cymaint â phosibl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cefnogi'r bobl yn unol â'u cynlluniau gofal a'u bod yn defnyddio'r wybodaeth fanwl sydd ganddynt am y bobl wrth eu cefnogi. Gwelsom fod arwyddion dwyieithog yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r adeilad. Mae polisïau darparwr y gwasanaeth a'r canllaw i breswylwyr ar gael yn Gymraeg os oes well gan y bobl eu cael yn yr iaith honno. Mae croeso i ymwelwyr yn y cartref ac maent yn cwrdd â'r bobl mewn ardaloedd cymunedol neu yn eu hystafelloedd. Mae'r rheolwr yn hwyluso teithiau allan i'r gymuned os yw'r bobl am fynd allan gyda'u hymwelwyr.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cael hyfforddiant ar sut i nodi achosion o gam-drin neu esgeuluso, a rhoi gwybod amdanynt. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwr a'i fod yn hawdd mynd ato. Mae'r cofnodion yn dangos bod prosesau i amddiffyn pobl agored i niwed yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y cartref.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod cyfarpar priodol ar gael i gefnogi anghenion y bobl. Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal a chadw'r adeilad a'r safle er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl. Mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys y cyfarpar a'r dodrefn sydd eu hangen arnynt. Mae darparwr y gwasanaeth wrthi'n adnewyddu'r llawr cyntaf cyfan.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau er mwyn asesu addasrwydd y gwasanaeth ar gyfer y bobl sydd am symud i fyw yno. Pan fydd wedi cadarnhau y gellir diwallu anghenion y bobl, bydd y rheolwr yn llunio cynlluniau personol yn nodi sut y dylai'r staff gofal gefnogi anghenion unigol y bobl. Mae'r staff gofal yn y cartref yn adnabod y bobl yn dda ac mae ganddynt wybodaeth dda am yr hyn y maent yn ei hoffi a'u trefn ddewisol o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn gweithio i gynnwys y wybodaeth fanwl hon yn y cynlluniau personol fel rhan o'r adolygiad rheolaidd o gynlluniau'r bobl er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.

Mae gan y staff gofal gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn garedig, yn ofalgar ac yn barchus tuag atynt. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cyffwrdd â'r bobl mewn ffordd dyner er mwyn eu harwain a rhoi sicrwydd iddynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff gofal a'r bobl yn gynnes ac yn gyfeillgar. Mae'r staff gofal yn cydnabod y gall fod angen i'r bobl sy'n byw gyda dementia fynegi eu hunain drwy ymddygiad sy'n ailadrodd, ar lafar, neu drwy symudiadau aflonydd. Gwelsom fod y staff gofal yn cynnal awyrgylch digyffro ac ymlaciol yn y cartref drwy ddarparu cymorth yn unol ag anghenion unigol y bobl i'w hysgogi, tynnu eu sylw, neu roi sicrwydd iddynt. Dywedodd unigolyn wrthym "*Staff really are excellent and look after me so well*"; mae'r cofnodion a welwyd yn ystod yr arolygiad yn cefnogi hyn. Gwelsom arferion symud a chodi a chario da yn ystod ein hymweliad â'r cartref.

Ceir cyfathrebu da rhwng y tîm rheoli a'r staff gofal mewn perthynas â newidiadau i anghenion y bobl, a chaiff y cynlluniau personol eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau i anghenion neu gyngor gan weithwyr proffesiynol wrth iddynt godi. Dywedodd y staff wrthym y gallant gael gafael ar y newidiadau hyn drwy'r system cofnodion gofal electronig yn y cartref. Mae'r cofnodion electronig yn dangos cyfnodau trosglwyddo cadarn ar gyfer pob shifft, a chyfathrebu a chydgysylltu amserol â gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau y caiff anghenion iechyd a llesiant y bobl eu diwallu. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael i'r staff yn electronig bob amser.

Mae'r cofnodion yn dangos arferion priodol ar gyfer rheoli a rhoi meddyginiaeth yn y cartref, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'r bobl gan eu meddyg teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Caiff arferion rhoi meddyginiaeth eu monitro yn y cartref gan y rheolwr, yr Unigolyn Cyfrifol, a gweithwyr fferyllol proffesiynol allanol er mwyn sicrhau arferion diogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr a darparwr y gwasanaeth yn gweithredu'n brydlon i roi gwelliannau a nodwyd drwy archwiliadau allanol ar waith.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau y caiff y cartref ei gadw'n lân a rheoli'r risg o heintiau. Gwelsom gyflenwadau digonol o Gyfarpar Diogelu Personol ac

mae'r rotas yn dangos bod staff domestig yn y cartref bob dydd. Gwelsom gyflenwadau digonol o nwyddau glanhau a golchi dillad yn ystod ein hymweliad arolygu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i addurno'n chwaethus ac mae pob lolfa wedi'i haddurno mewn lliw gwahanol ac yn cynnwys digon o seddi cyfforddus i'r bobl eu defnyddio. Mae'r ystafell fwyta wedi'i gosod yn dda ac yn cynnwys sawl bwrdd bwyta er mwyn i grwpiau llai o hyd at bedwar unigolyn fwyta gyda'i gilydd. Roedd llieiniau a lleoedd gosod ar y byrddau yn ystod amseroedd bwyd, a oedd yn ychwanegu at y profiad bwyta urddasol a phleserus i'r bobl. Mae ardal ar gyfer paratoi diodydd a byrbrydau wedi cael ei chreu yng nghefn yr ystafell fwyta, a chaiff prydau eu gweini yno ar ôl iddynt gael eu paratoi yn y gegin. Gwelsom fod hyn yn gweithio'n dda yn ystod amseroedd bwyd gan fod arogl y bwyd yn helpu i arwain y bobl â dementia at yr ystafell fwyta ac i ysgogi awydd bwyd y bobl.

Gwnaethom gynnal ein hymweliad ychydig cyn y Nadolig a gwelsom fod y lolfa a'r ardaloedd bwyta wedi'u haddurno'n chwaethus, gan gynnwys coed Nadolig, goleuadau a mathau eraill o addurniadau. Gwelsom hefyd fod y safle wedi cael ei addurno â goleuadau ac addurniadau tymhorol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y darparwr yn sicrhau bod ganddo gyllideb i addurno'r cartref yn unol â'r tymhorau neu ddathlu gwyliau gwahanol, fel y Pasg a Dydd Gŵyl Dewi.

Mae sawl ardal o'r cartref wedi cael ei hailaddurno. Mae lloriau newydd wedi cael eu gosod mewn rhai ystafelloedd gwely hefyd, ac mae gwaith arall yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r cartref; nid yw'r llawr cyntaf cyfan yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ond mae'n cael ei adnewyddu, gan gynnwys newidiadau i gynlluniau ystafelloedd, lloriau newydd a gwaith ailaddurno drwyddo draw, ac ystafell staff newydd. Gwelsom fod yr ystafelloedd gwely sy'n cael eu defnyddio ar lawr gwaelod ac ail lawr y cartref wedi cael eu personoli, a'u bod yn gynnes, yn gyfforddus ac yn cynnwys y dodrefn a'r gosodiadau sydd eu hangen ar y bobl. Gwnaethom edrych ar y cofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar yn ystafelloedd y bobl yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod y staff gofal yn defnyddio'r cyfarpar arbenigol yn ddiogel wrth gefnogi'r bobl.

Mae'r cofnodion yn y cartref yn dangos bod y darparwr yn monitro iechyd a diogelwch yn y cartref drwy archwiliadau a'i fod yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd drwy asesiad risg. Caiff y cyfarpar arbenigol yn y cartref ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw yn rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd o bum seren, sef y sgôr uchaf y gellir ei hennill. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff risgiau amgylcheddol i'r bobl sy'n byw yn y cartref eu nodi a'u lleihau i'r eithaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i roi arweiniad i'r staff ar sut i gefnogi'r bobl mewn ffordd effeithiol a diogel, a chânt eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn adolygu'r cofnodion a siarad â'r bobl a'r staff yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion yn dangos bod gan yr Unigolyn Cyfrifol systemau ar waith i gasglu adborth gan y preswylwyr a'u perthnasau. Defnyddir eu hadborth i lywio prosesau sicrhau ansawdd a datblygiad y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio â'r Unigolyn Cyfrifol ac yn cael ei gefnogi gan dîm uwch-reolwyr darparwr y gwasanaeth hefyd. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu gofynnol, eu monitro gan yr Unigolyn Cyfrifol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y rheolwr a'r tîm o staff er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Dywedodd y staff fod y rheolwr yn barod iawn ei gymwynas a'i bod yn hawdd cael gafael arno.

Mae niferoedd priodol o staff yn y cartref, ac mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff bylchau yn y rota eu llenwi. Mae swyddi'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd ar gyfer aelodau parhaol o staff. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cael yr hyfforddiant priodol a bod y rheolwr yn monitro eu cydymffurfiaeth er mwyn sicrhau bod y cymysgedd sgiliau cywir ar gael yn y cartref i ddiwallu anghenion y bobl. Mae staff newydd yn cwblhau rhaglen sefydlu drylwyr, gan gynnwys cysgodi staff gofal profiadol, cyn gweithio'n annibynnol ar shifft. Mae'r rheolwr yn cwblhau gwiriadau fetio ar staff newydd cyn iddynt gael eu penodi, gan gynnwys eu cofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Caiff y gwiriadau hyn eu hailadrodd bob blwyddyn o leiaf ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Lle y defnyddir staff asiantaeth, mae'r rheolwr yn sicrhau y gofynnir am yr un staff ar gyfer shifftiau er mwyn sicrhau parhad gofal.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y cartref yn gynaliadwy yn ariannol a bod digon o fwyd a chyflenwadau angenrheidiol eraill yn y cartref. Gwelsom gyflenwadau da o ffrwythau a llysiau ffres yn y gegin, a chadarnhaodd y rheolwr y ceir dosbarthiadau bob wythnos gan gynnwys cig ffres. Cadarnhaodd y rheolwr fod darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod cyllidebau'n ddigonol ar gyfer pob agwedd ar y cartref, a'i fod yn hapus i'r rheolwr archebu cyfarpar a nwyddau yn ôl yr angen.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/02/2024